*Aelodaeth is bwyllgor Cymorthdaliadau: Cllrs / Cyng Rob Parkes, Raymond Bartley, Medwyn Williams, Colin Hughes, Roy Tickle, Shereen Devine a Gaynor Wood.*

**Cofnodion is-bwyllgor Cymorthdaliadau a gynhaliwyd nos Fawrth, Tachwedd 18fed 2014 am 5 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol**: Y Cynghorwyr Colin Hughes (cadeirydd), Rob Parkes, Raymond Bartley, Roy Tickle a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Gaynor Wood a Shereen Devine.

**Datganiad Diddordeb:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Raymond Bartley - Cais rhif 3 Cymdeithas Gymraeg a Rhif 11 Sant Cyndeyrn
(2) Cyng Rob Parkes - Cais rhif 1 Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru
(3) Cyng Colin Hughes - Cais rhif 11 Sant Cyndeyrn.

Dywedwyd fod **£25,650** ar gael yng nghyllideb cymorthdaliadau (cyfanswm cyllideb cymorthdaliadau yn £50,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol). Ystyriwyd tri ar ddeg o geisiadau. Cytunwyd i argymell y canlynol ynglŷn â phob un o'r ceisiadau

Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru. Cais blynyddol. Cytunwyd i argymell grant o £100 yn unol â pholisi'r cyngor (A.137).

Clwb Rotary Dinbych. Cais blynyddol ynglŷn â digwyddiad dydd Gŵyl San Steffan. Cytunwyd i argymell grant o £500 (A.137).

Cymdeithas Gymraeg Dinbych. Cais blynyddol - gofynnwyd am £250. Cytunwyd i argymell grant o £250 (A145).

Gofal a Thrwsio Sir Ddinbych. Cais blynyddol. Cytunwyd i argymell grant o £300 (A.137).

Eisteddfod Genedlaethol 2015. Cais blynyddol. Cytunwyd i argymell grant o £250 (A.145).

Bobath Cymru. Cais blynyddol. Cytunwyd i argymell grant o £100 yn unol â pholisi'r cyngor (A.137).

Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Cais blynyddol. Cytunwyd i argymell grant of £100 (A.145).

Ford Gron Dinbych. Cais ôl-weithredol ar gyfer Gŵyl Gwrw Dinbych 2014. Gofynnwyd am £350. Mynegwyd pryder ynglŷn â diweddarwch y cais. Cytunwyd I argymell gohirio'r cais ac i ofyn am fwy o wybodaeth ynglŷn â (a) pa elusennau a gefnogir a (b) mantolen / cyfrifon yn unol â pholisi'r cyngor ynglŷn â cheisiadau cymorthdaliadau.

Cadwyn Clwyd. Cais ôl-weithredol. Gofynnwyd am £1,000 tuag at Drysau'n Agored 2014 (Cyfanswm y gost £15,040). Mynegwyd pryderon ynglŷn â diweddarwch y cais. Cytunwyd i argymell grant o £500 (A.137).

Gwefr Heb Wifrau. Gofynnwyd am £1,039.92 tuag at gyfanswm o £1,039.92 i osod carped newydd yn yr Amgueddfa. Roedd y cais yn cynnwys un dyfynbris am garped. Cytunwyd I argymell gohirio'r cais ac i gynghori'r ymgeisydd i gael dyfynbrisiau ychwanegol i'w hystyried.

Sant Cyndeyrn. Apêl blynyddol. Cytunwyd I argymell grant o £1,200 (A.137).

<u>Pwyllgor Dathlu Geni Thomas Gee.</u> Cais newydd. Gofynnwyd am £1,000 tuag at gyfanswm costau o £1,500 i ariannu penwythnos o ddathlu ym mis Ionawr 2015. Cytunwyd I argymell grant o £500 (A.137).
<u>Theatr Bara Caws.</u> Cais blynyddol. Cytunwyd i argymell grant o £200 (A.145)

Cyfanswm grantiau a argymhellwyd - **£4,000** gan adael balans o **£21,650** yng nghyllideb cymorthdaliadau ar gyfer y pedwar mis oedd yn weddill yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Terfynwyd y cyfarfod am 5.44 o'r gloch.